

# MAE CHWARAE'N BWYSIG YNG NGHASTELL-NEDD PORT TALBOT!




Mae llawer o bobl yng Nghastell-nedd Port Talbot (CNPT) yn credu bod chwarae'n bwysig dros ben i blant a phobl ifanc. Mae'r Cyngor (sy'n ceisio gwella neu ddatblygu chwarae ar gyfer plant a phobl ifanc) wedi gwneud cynlluniau i sicrhau bod pawb yn gallu mwynhau lleoedd difyr, diogel a chyffrous i chwarae – p'un a ydyn nhw'n byw ar lan y môr, mewn trefi, neu yng nghefn gwlad.

Mae'r Cyngor eisiau:

- I bob plentyn a pherson ifanc gael dechrau gwych mewn bywyd
- I bob cymuned fod yn hapus ac yn gryf
- Gwell mannau chwarae a mwy o bethau difyr i'w gwneud

Maen nhw hefyd yn credu bod chwarae'n helpu plant a phobl ifanc i dyfu'n gryf, i deimlo'n hapus, i wneud ffrindiau, ac i ddysgu sgiliau bywyd pwysig.



## SIARAD Â PHLANT A PHOBL IFANC

- Mae'r Cyngor yn gwrando ar blant, pobl ifanc a theuluoedd i sicrhau bod mannau chwarae a gweithgareddau yn cyfateb i beth maen nhw eisiau ac angen. Fe wnaethon nhw lunio cynllun (sy'n cael ei alw'n Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae) a siarad â 750 o blant a phobl ifanc, i gyd o wahanol gefndiroedd, i'w helpu i benderfynu beth i'w wneud o 2025 tan 2028.
- Gofynnwyd i'r plant a'r bobl ifanc gwblhau **arolygon** a **fideos** pan oedden nhw yn yr ysgol, er mwyn rhoi eu barn i'r Cyngor ar chwarae yn y mannau lle maen nhw'n byw.

## BETH DDYWEDODD PLANT A PHOBL IFANC WRTHYN NI:

**Mae llawer o blant 8-10 oed eisiau'u clwb ieuenctid eu hunain.**

*""Byddai clybiau ieuenctid i fy oed i yn wych."*

**Mae arddegwyr yn hoffi cysgodfannau i dreulio amser gyda ffrindiau.**

*"Hoffwn i gael rhywle fel Cysgodfan Ieuenctid, i dreulio amser ynddo ym mhob parc."*

**Dyw llawer o blant ddim yn chwarae allan llawer, yn enwedig yn y cymoedd.**

*"Dydw i ddim wir yn chwarae tu fas llawer gyda ffrindiau, ond pan fydda i'n mynd mas, dim ond treulio amser gyda'n gilydd fyddwn ni."*

**Mae rhai plant yn methu cyrraedd gweithgareddau, yn enwedig os nad ydyn nhw'n teimlo'n ddiogel yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.**

*""Mae fy iselder a'm gorbryder cymdeithasol yn broblem ar drafnidiaeth gyhoeddus."*



# PA GAMAU BYDD Y CYNGOR YN EU CYMRYD:



## 1

**Cynnwys pawb**
Gwneud yn siŵr bod POB plentyn a pherson ifanc, gan gynnwys y rhai ag unrhyw anghenion ychwanegol, yn gallu chwarae a chael hwyl.

## 2

**Dweud wrth fwy o bobl**
Addo defnyddio gwefan Castell-nedd Port Talbot, cylchlythyron a chyfryngau cymdeithasol addas i roi gwybod i deuluoedd, plant a phobl ifanc beth sy'n digwydd.

## 3

**Ceisio gwella parciau a mannau gwyrdd**
Eu cadw nhw'n lân ac yn ddiogel, gydag offer difyr fel goliau pêl-droed a rampiau sglefrio.



## 4

**Defnyddio arian yn ddoeth**
Gwario arian i wella mannau chwarae a chlybiau.

## 5

**Helpu ysgolion**
Cefnogi ysgolion i wella'u mannau chwarae.

## 6

**6 Mwy o glybiau**
Annog mwy o bobl i sefydlu clybiau a grwpiau lle gall plant chwarae, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.

## 7

**Helpu gweithwyr chwarae**
Hyfforddi'r oedolion sy'n cynnal sesiynau chwarae er mwyn gwneud chwarae'n ddiogel ac yn ddifyr i bawb.




## 8

**Gwrando mwy**
Dal i siarad â phlant a phobl ifanc er mwyn canfod beth maen nhw'n ei hoffi, a beth sydd ei angen arnyn nhw.

## 9

**Cydweithio**
Bydd ysgolion, teuluoedd a grwpiau chwarae yn gweithio fel tîm i wella chwarae i bob plentyn a pherson ifanc.

CYNGOR CASTELL-NEDD PORT TALBOT • NEATH PORT TALBOT COUNCIL